

Datganiad Polisi

1. Gofynnir i weithwyr fyw o fewn i bellter teithio dyddiol arferol o'r Brifysgol (20 milltir) ac eithrio'r rheiny sy'n derbyn caniatâd penodol y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol. Bydd y Brifysgol yn cefnogi gweithwyr newydd i adleoli i'r ardal, ac yn cydnabod yr heriau ymarferol ac ariannol sydd ynghlwm wrth adleoli. Mae'r Polisi hwn:
 - yn amlinellu'r meini prawf a'r amodau sy'n berthnasol i weithwyr newydd sy'n dymuno gwneud cais am gostau adleoli;
 - yn sicrhau bod cymorth ariannol yn cael ei ddarparu mewn modd cyson;
 - yn darparu cymorth i staff sy'n adleoli er mwyn dechrau swydd yn y Brifysgol;
 - yn darparu cymorth mewn modd cyson i bawb o'r staff sy'n gymwys;
 - yn darparu cyngor ac arweiniad i bawb sy'n ymwneud â'r broses.

Cymhwyster

2. Gweithwyr newydd sy'n symud i le sydd o fewn pellter teithio dyddiol (20 milltir) i'r gweithle (ac eithrio gyda chaniatâd penodol y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol).
3. Rhaid symud o fewn 12 mis i ddechrau swydd yn y brifysgol.
4. Rhaid gwneud cais cyn diwedd y flwyddyn dreth ar ôl y flwyddyn y symudwyd tŷ.
5. Pan fydd mwy nag un aelod o'r teulu yn cael eu penodi i'r Brifysgol, dim ond un cais am ad-daliad (hyd at yr uchafswm o £2,000) y gellir ei dderbyn. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol gymeradwyo ad-dalu costau ychwanegol, ond dylid cytuno ar hynny wrth benodi i'r swydd a chynnwys y manylion yng nghontract gwaith y gweithiwr.
6. Ni ellir gwneud cais i hawlio costau cyn dechrau ar y swydd ac ni thelir costau ymlaen llaw.
7. Rhaid i gostau adleoli ar gyfer swyddi sy'n cael eu hariannu'n allanol gael cod a'u hawlio o ffynhonnell y grant. Lle nad yw'r grant yn cynnwys y gost, ni fydd modd hawlio costau adleoli.

Y drefn ymgeisio a chymeradwyo

8. Dylai gweithwyr newydd sy'n bodloni'r meini prawf uchod ac yn dymuno hawlio costau adleoli anfon y dogfennau isod ar gyfer pob cais i'r adran Adnoddau Dynol:
 - ffurflen hawlio safonol ar gyfer ad-dalu costau adleoli o fewn deuddeg mis ar ôl dechrau'r swydd;
 - nifer o ddyfynbrisiau y cytunwyd arno (gweler paragraff 9)
 - derbynebaw ar gyfer yr holl gostau, yn enw'r gweithiwr, sy'n dangos rhif y cwmni/rhif TAW lle bo hwnnw ar gael.

Lefel a math o Gostau Adleoli y gellir eu hawlio

9. Y mwyafswm y gellir ei ad-dalu yw £2,000. Bydd y swm hwn yn cael ei adolygu, yn ôl yr angen, gan y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth. Mae'r Polisi Costau Adleoli yn cynnwys ad-dalu'r costau isod:

- costau gwerthu tŷ presennol y gweithiwr;
- y costau sydd ynghlwm wrth brynu tŷ newydd y gweithiwr, yn unol â Phwynt 2 uchod;
- cludo eiddo'r gweithiwr i'r tŷ newydd. Noder y dylid sicrhau 3 thendr cystadleuol, ysgrifenedig, a'u cyflwyno gyda'r cais;
- costau teithio cysylltiedig ar gyfer chi a'ch teulu;
- benthyciadau pontio.

10. Nid yw'r Polisi Costau Adleoli yn cynnwys y costau isod:

- biliau gwasanaethau, e.e. trydan, dŵr, nwy, Treth y Cyngor;
- blaendaliadau ar gyfer tai rhent (oherwydd bydd y rhain yn cael eu had-dalu'n uniongyrchol i'r tenant ar ddiwedd y cytundeb tenantiaeth);
- ailgyfeirio post;
- costau cynhaliath os yw brechwast wedi'i drefnu fel rhan o'r trefniadau Gwely a Brechwast;
- costau teithio rhwng cartref presennol y gweithiwr a Phrifysgol Aberystwyth, ac oddi yno, ar ôl i'r gweithiwr ddechrau yn ei swydd;
- nwyddau i'r cartref newydd.

Gweler y 'Canllawiau ar gyfer Hawlio Costau Adleoli' am ragor o wybodaeth ynghylch pa gostau y gellir eu hawlio yn unol â Pholisi Costau Adleoli'r Brifysgol. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac os nad yw'n glir i'r unigolyn a ddylid hawlio cost eitem ai peidio, dylid holi am gyngor yr adran Adnoddau Dynol cyn gwario.

11. Rhaid i weithwyr sy'n gwneud cais am gostau adleoli ddatgan nad oes unrhyw gostau adleoli eraill wedi eu hawlio, nac y gellid eu hawlio, gan yr aelod o'r staff dan sylw neu unrhyw berson arall parthed yr adleoliad.

Ad-dalu Costau Adleoli

12. Os bydd yr aelod o'r staff neu'r brifysgol yn terfynu contract gwaith y gweithiwr, neu os bydd y contract yn diwedd, o fewn i gyfnod tair blynedd, bydd cynllun ad-dalu o 1/36^{ed} ar gyfer pob mis anghyflawn yn dod i rym parthed y costau adleoli sydd eisoes wedi eu talu.

Cyn i'r swydd ddod i ben, dylid nodi y bydd yn rhaid i'r gweithiwr a'r Brifysgol ddod i gytundeb ynglŷn ag ad-dalu'r arian a dalwyd.

Amrywiadau i'r Polisi

13. Mae gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol awdurdod i amrywio trefniadau ar gyfer costau adleoli o dan amgylchiadau eithriadol.

Ffynonellau Arweiniad Pellach

14.

- 'Canllawiau Hawlio Costau Adleoli' y Brifysgol
- Llyfryn Cyllid y Wlad "Income Tax and National Insurance contributions on expenses or benefits paid in connection with relocation"
- www.inlandrevenue.gov.uk
- Yr Adran Adnoddau Dynol.